**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr CEINEWYDD a gynhaliwyd o bell trwy gynhadledd fideo ar nos Iau, 16 Mawrth 2023**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Matthew Vaux a Carl Worrall

**Yn cynrychioli Cyngor Tref Ceinewydd:** xxxxxxxxx

**Yn cynrychioli Defnyddwyr yr Harbwr:** xxxxxxxxx

**Swyddogion a oedd yn Bresennol:** Gerwyn Jones, Owen Morgan, Katy Spain a Nia Jones (cofnodion)

**Defnyddwyr Eraill yr Harbwr**: Martin Beazer, Jonathan Evans, Tim Harrison, Melanie Heath, Tim Jeremy, Rees-Tim Jones, Mike Masters, Crawford McLeary, Carl Rich, Chris Seal, Martin Seal, Brett Stones a Katy Willett.

(6.25pm – 7.15pm)

**1. Ymddiheuriadau**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

**2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2022**

Cytunwyd cadarnhau bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2022 yn gofnod cywir.

**3. Materion yn Codi**

dim

**3. Diweddariad am Wasanaethau Harbwr**

Rhoddodd Owen Morgan, Rheolwr Harbyrau Ceredigion, ddiweddariad gan gyfeirio at 4ydd Rhifyn Cylchlythyr 'Calm Waters' a ddosbarthwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw.

**4. Materion a Godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol cyn y cyfarfod:

| | **Cwestiwn** | **Ateb** |
|---|---|---|
| 1 | Ysbwriel posibl ar y Traeth / yn yr Harbwr a diffyg biniau | Mae modd gweld Datganiad i'r Wasg Tymor Newydd Dull Gweithredu Newydd Ceinewydd trwy droi at:<br><br>Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Mae gwaith ymgysylltu pellach gyda rhanddeiliaid allweddol yn parhau, a gaiff ei gynorthwyo gan ddeunyddiau amlwg/a fydd yn codi ymwybyddiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Lle ychwanegol ar gyfer dingis hwylio | Bwriedir neilltuo ychydig le trwy weithio gyda rhanddeiliaid. |

Gofynnwyd cwestiynau atodol yn ystod y cyfarfod:

| | | |
|---|---|---|
| 3 | Mae angen rhoi sylw i Eitem 2 cyn y Pasg gan eu bod eisoes ar y traeth | Mae angen i ni sicrhau lle i bawb. Bydd y ramp newydd yn cynnig rhywfaint o le, ond mae angen i ni sicrhau lle ar gyfer y clwb rhwyfo hefyd. |
| 4 | Awgrymwyd y dylid sefydlu gweithgor i symud ymlaen gyda'r materion hyn | Cytunwyd |
| 5 | Mae angen i ni roi sylw i'r sefyllfa o ran biniau.<br><br>Byddai gwaith clirio mwy rheolaidd yn dda. Efallai y bydd teuluoedd ar y traeth yn dymuno cael rhywle gerllaw i waredu sbwriel yn hytrach na'i gario i fyny y slip tywodlyd. Bydd y rhan fwyaf yn glanhau ar ôl eu hunain, ond ni fydd rhai yn gwneud hynny. Mae angen i ni annog pobl i roi pethau mewn biniau, felly mae angen iddynt fod gerllaw. | Byddwn yn cynnwys datganiad i'r wasg gyda'r cofnodion, sy'n nodi'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yng Ngheinewydd dros yr haf. Rydym yn gwneud ein gorau gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, ond bydd hyn yn gofyn am ddull gweithredu ar ffurf partneriaeth gan nad yw'r rhain yn faterion i'r Cyngor Sir yn unig. Mae gan randdeiliaid gyfrifoldeb dros ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfreithlon a chyfrifol. Os bydd pobl wedi mynd â bwyd/diod ac eitemau eraill i'r traeth, mae'n ddisgwyliad rhesymol eu bod yn defnyddio'r bin agosaf sydd ar gael iddynt neu eu bod yn mynd â'u sbwriel gartref gyda nhw. Mae biniau ar y traeth wedi bod yn broblem am sawl blynedd ac mae angen i ni ystyried gwahanol ffyrdd o wneud pethau. Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Stryd yn monitro y sefyllfa wrth i ni agosáu at y Pasg. Mae'n bwysig ein bod yn cynnal proffil cadarnhaol ar gyfer Ceinewydd fel lle gwych i ymweld ag ef a byw. Fel rhan o'r adolygiad, byddwn yn ystyried gwahanol fathau o finiau, a cherbydau, a threfniadau i wagio biniau yn fwy rheolaidd o bosibl, megis 3 gwaith yr wythnos yn ystod yr Haf. Y gobaith yw y gallwn sicrhau canlyniad cadarnhaol y |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae pawb yn ei ddymuno. |
| 6 | Mae angen clirio'r mieri gerllaw caffi y traeth neu efallai y bydd yn dod yn fan amlwg er mwyn cuddio sbwriel. | Codwyd hyn gyda'r gwasanaeth sy'n gyfrifol am y tir a rhoddir sylw iddo eto. Nododd y Cynghorydd Keith Henson ei fod yn falch gweld bod rhai busnesau yn defnyddio papur yn hytrach na bocsys, sy'n lleihau cyfanswm y sbwriel. |
| 7 | Gwelir cynnydd yn nifer y cychod hwylio sy'n ymweld, ond nid oes unrhyw le iddynt glymu. Gallai disgyn angorau greu perygl y gallent gael eu dal mewn angorfeydd a photiau presennol. Gallai darparu angorfeydd ymhellach allan fod yn gyfle i gynyddu incwm hefyd.<br><br>Nid ydym yn sôn am angorfeydd sych, ond angorfeydd dyfnach. Byddai cost gychwynnol, ond ceir y potensial yma i gynyddu incwm. | Nid yw rhai o'r angorfeydd sydd ar gael yn addas, yn enwedig ymhellach allan. Fodd bynnag, os bydd un yn dod ar gael, byddwn yn ei ystyried ar gyfer cychod hwylio sy'n ymweld.<br><br>Gallem ystyried hyn, ond byddai angen i ni ystyried y costau cynnal a chadw hefyd. |
| 8 | A ydym yn mynd i weld rhestr aros tecach a mwy tryloyw am angorfeydd? Nid oes yn rhaid iddi gynnwys enwau a chyfeiriadau, dim ond manylion y cychod, gan nad yw hyn yn gweithio ar hyn o bryd. | Mae GDPR yn golygu na allwn ddarparu gwybodaeth sensitif, felly byddai'n cael ei golygu yn fawr. Ceir adran yn y polisi sy'n amlinellu'r broses ar gyfer dethol.<br><br>**Nodyn ar ôl y Cyfarfod**<br>Mae'r rhestr aros am angorfeydd ar gyfer pob harbwr ym mis Mawrth 2023, a olygwyd, ynghlwm. Mae rhif pob cofnod yn adlewyrchu pryd y gwnaethpwyd y trafodiad. Mae'r broses o neilltuo angorfeydd fel y nodir ac yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.<br><br>Os bydd gan unrhyw un bryder neu broblem gyda'r ffordd y gweithredir y Polisi, byddem yn croesawu'r cyfle i ymchwilio i'r rhain yn fawr. |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | O ran carthu a chadwyni, a fyddai modd creu sianel o'r cei er mwyn annog llif y dŵr, gan oedi datblygiad banciau tywod. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau baner las. | Byddwn yn canolbwyntio ar gadwyni eleni, fodd bynnag, byddem yn fodlon ystyried hyn. |
| 10 | Ble y cynhelir cymhorthfa dydd Iau Ceinewydd? | Yn swyddfa'r Harbwr |
| 11 | A oes proses yn ei lle i ystyried cynnal a chadw diwedd yr harbwr? | Mae'n hen strwythur a byddai gofyn gwneud cryn waith cynllunio. Byddwn yn edrych i weld a oes amserlen waith wedi'i chynllunio. |
| 12 | Beth yw'r amser cyflawni ar gyfer angorfeydd? | Proseswyd un yn ystod y bythefnos ddiwethaf a 3 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf |
| 13 | Roedd gan y cyngor angorfa 6-7 mlynedd yn ôl, ond ni chafodd ei chynnal a'i chadw, a gwelwyd cwch ar Draeth Gwyn o ganlyniad. Mae angen cynnal hon | Os yw'n angorfa dŵr dwfn, byddai angen i ni ystyried y mater hwn. |
| 14 | Mae rhai angorfeydd yn denau fel papur. Pam na all swyddog gerdded ar hyd y traeth i'w harchwilio neu eu harchwilio o gwch, | Rydym yn cerdded ar hyd y traeth. Gwnaethpwyd hyn yn ystod trai y gwanwyn. Nid yw'n aber mawr felly nid oes angen cwch, a byddai goblygiadau iechyd a diogelwch sylweddol, yn ogystal â goblygiadau o ran y gost |
| 15 | Ni fydd rhai angorfeydd fyth yn cael eu defnyddio. Mae'r cwch yn eistedd wrth yr angorfa trwy gydol y flwyddyn ac yn cael eu codi allan ar ddiwedd y Tymor, ac mae nifer fawr o bobl ar y rhestr aros am angorfa. Mae hyn yn annerbyniol. A fyddai modd i chi gynnwys rhywbeth yn y rheolau sy'n nodi os na chaiff yr angorfa ei defnyddio am 3 blynedd, y byddwch yn colli'r angorfa. Pe bai'n rhaid i ymgeiswyr ymgeisio bob blwyddyn, ni fyddai hyn yn ddewis hyfyw i'r rhai | Ceir rhai ar draws pob harbwr nad ydynt yn defnyddio eu hangorfeydd. Fodd bynnag, pe bai rhywun yn dymuno gadael, dylent wneud hynny, ac ni ddylent drosglwyddo'r angorfeydd i eraill. Fel rhan o'r ymgynghoriad, gall rhanddeiliaid wneud cynigion o'r fath, fodd bynnag, bydd harbyrau wastad yn cynnwys defnydd cymysg a gwahanol flaenoriaethau. Mae'r rhestr aros yno, ac mae'n dryloyw o ran polisi. Mae'r galw yn uchel yng Ngheinewydd, ond sut allwn ni symud pobl ymlaen mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | hynny ohonom sy'n gwario arian ar osod cadwyni ac ati. | ffordd deg a thryloyw? |
| 16 | Heb ystyried angorfeydd masnachol, a oes gan unigolion yr hawl i fod yn berchen ar angorfeydd lluosog? | Oes |
| 17 | O bersbectif amgylcheddol, mae'n ddrud i berchnogion cychod newid o diesel i drydan, fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn gwneud hwn yn gam gwerth chweil iddynt, gallai fod yn ffordd o gymell newid. | Er ein bod yn gefnogol o'r syniad y tu ôl i'r awgrym, ni fernir bod hwn yn fater y gall y Cyngor ymwneud ag ef ar yr adeg hon. |
| 18 | Ni chaiff rhai o'r seddau ar ben yr harbwr eu cynnal a'u cadw, gan adael i'r rhai a'u rhoddodd i wneud hynny | Byddai angen i ni edrych pa rai y mae'r Cyngor yn berchen arnynt a pha rai y mae eraill megis Cyngor y Dref neu unigolion yn berchen arnynt. |

Nododd aelodau Grŵp Defnyddwyr yr Harbwr y codir y cychod hwylio allan ar ddydd Llun 24 Ebrill, nad yw yn ystod y gwyliau Pasg a Llanw 1af cyfleus y Gwanwyn.  Nododd yr Harbwrfeistr ei fod wedi prosesu'r cais.

Diolchodd Cadeirydd y cyfarfod i bawb am y sylwadau, gan nodi bod sawl peth y mae angen i'r gwasanaeth ymateb iddynt.

**5. Unrhyw fater arall y bydd y Cadeirydd yn penderfynu bod gofyn i'r Pwyllgor roi ei sylw iddo ar frys**

Ni chodwyd unrhyw eitemau.